## RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ac yn rhithwir ar ZOOM ddydd Mawrth, 14 Chwefror, 2023

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Gwener, 17 Chwefror, 2023. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ddydd Gwener, 24 Chwefror, 2023. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Llun, 27 Chwefror, 2023.

**Yn bresennol**: Cynghorwyr Llinos Medi (Cadeirydd), Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams, Gary Pritchard, Alun Roberts a Nicola Roberts

**Hefyd yn Bresennol**: Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones, Pip O'Neill, Derek Owen, Dafydd Roberts, Ken Taylor, Alwen Watkin, Arfon Wyn

**Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Carwyn Jones

(10:00 y.b. - 10:20 y.b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2023 yn gywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei** |

| | |
|---|---|
| | **diweddaru am y cyfnod Mawrth 2023 i Hydref 2023 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2021/22**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2021/22 (Atodiad A).**<br>• **Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yr awdurdod i lofnodi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Terfynol a'u ffeilio gyda'r Comisiwn Elusennau ar ôl cwblhau'r archwiliad yn foddhaol.**<br>• **Awdurdodi cynnal adolygiad o Ymddiriedolaeth Addysg Ynys Môn gyda'r nod o ddiweddaru a moderneiddio'r Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau'r buddion addysgol gorau posibl ohono ar gyfer pobl ifanc Ynys Môn.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn unol â gofyniad y Comisiwn Elusennol** |

| | |
|---|---|
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2023/24**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru fel y'i gweithredwyd hyd yn hyn gan Awdurdodau Gogledd Cymru fel sail i osod ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2023/24 (Tabl 1 yn yr adroddiad);**<br>• **Cymeradwyo'r argymhelliad i godi lefel y ffioedd fel a ganlyn:-**<br>  ◦ **Gofal Preswyl (Oedolion) – £711.83**<br>  ◦ **Preswyl (EMI) - £795.46**<br>  ◦ **Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £774.54 + elfen FNC yr Awdurdod Lleol (i'w gadarnhau)**<br>  ◦ **Nyrsio (EMI) (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £915.37 + elfen FNC yr Awdurdod Lleol(i'w gadarnhau)**<br><br>• **Awdurdodi'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Cyllid i ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i archwilio eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sail i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Unrhyw eithriadau i'w cytuno gyda'r Aelod Portffolio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth** |

| | |
|---|---|
| | **(Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Oedolion o'r cyllidebau presennol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn gosod ffioeddd cartrefi sector gofal ar gyfer 2023/24 yn unol â pholisi cenedlaethol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Rhan o'r broses o osod y gyllideb gan y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn –**<br>• **I sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.**<br>• **I ddiwygio'r Cyfansoddiad er mwyn diddymu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ac i ddirprwyo i'r Swyddog Monitro yr hawl i weithredu'r newidiadau yna.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gwneud argymhelliad ar sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Ynys Môn yn dilyn dod â'r trefniadau ar y cyd i ben.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae penderfyniadau ar newidiadau i'r Cyfansoddiad wedi'u cadw ar gyfer y Cyngor Llawn.** |